Ar ei ben ei hun

(unigrwydd / dyfalbarhad)

Yng ngaeaf 1934 roedd Richard Byrd ar ei ben ei hun yng ngerwinder yr Antartig. Gweithio yn y ganolfan dywydd oedd Byrd. Yma, yng nghanol tywydd eithriadol o oer, ddim ymhell o Begwn y De, roedd yn gorfod astudio a chofnodi'r tywydd o ddydd i ddydd. Doedd hyn ddim yn waith hawdd o gwbl. Nid yn unig roedd o ar ei ben ei hun ond roedd y tywydd ar brydiau yn stormus a rhewllyd. Roedd yn waith unig iawn. Byddai'r nosweithiau'n hir ac undonog. Doedd yna neb i gael sgwrs. Weithiau byddai Byrd yn mynd yn ddigalon iawn. Breuddwydiai am gael bod adref efo'i deulu yn mwynhau pryd o fwyd a thanllwyth o dân glo.

Un peth pwysig iawn mewn lle mor oer â hwn oedd cadw'n gynnes. A dyna oedd y broblem fawr a wynebai Byrd. Cwt bychan, digon bregus, oedd y ganolfan dywydd. Byddai pob awel o wynt yn treiddio i mewn i'r adeilad ond pan fyddai'r gwynt yn codi byddai corwynt yn chwythu drwyddo. Prin iawn oedd pelydrau'r haul mewn lle fel hyn. Yr unig offer i gadw'n gynnes oedd stôf fechan. A dyna lle roedd y broblem! Pan fyddai'n cynnau'r stôf byddai nwyon gwenwynig yn treiddio trwy'r ystafell. Roedd yn amlwg fod yna ran o'r stôf yn gollwng. A doedd gan Byrd ddim erfyn o gwbl i drwsio'r stôf.

"Beth fedra i ei wneud?" gofynnodd iddo'i hun. "Os ydw i'n mynd i aros yn yr adeilad yma a thanio'r stôf bydd y nwyon gwenwynig yma'n siŵr o'm lladd. Ond os bydda i'n diffodd y stôf bydda i'n siŵr o fferru i farwolaeth. Beth fedra i ei wneud?"

Byddai'n siŵr o gael help gan y tîm achub ond byddai'n cymryd wythnos a mwy iddyn nhw gyrraedd. Rhaid oedd gwneud penderfyniad, a hynny'n sydyn.

"Mi wn i beth wna i," meddai wrtho'i hun, "mi adawa i stôf i gynhesu'r ystafell yn ystod y dydd ond, yn ystod y nos, mi wna i adael y drws yn agored er mwyn i'r awyr iach dreiddio i mewn. Mi af am dro wedyn i glirio 'mhen."

Dyna beth oedd hunllef. Yn ystod y dydd byddai'n cofnodi'r tywydd; ar brydiau byddai'n teimlo'n benysgafn iawn. Roedd y nwyon yn effeithio arno. Doedd dim amdani ond mynd allan i'r oerni. Cerddai am ychydig ond byddai'r tywydd mor oer byddai'n rhaid troi'n ôl i gludwch y cwt. Tanio'r stôf unwaith yn rhagor. Aros

i gofnodi'r tywydd am rai oriau ac yna allan i'r oerni. Dyna oedd bywyd bellach. Ond yn ystod oriau'r nos roedd hi'n fwy o broblem.

Nid yn unig yr oedd hi'n oer ond roedd hi'n dywyll fel bol buwch. Yng nghanol y corwyntoedd geirwon, yr eira yn lluwchio i bob cyfeiriad a hithau fel y fagddu, hawdd oedd mynd ar goll. Ond roedd yn rhaid mynd allan neu fygu i farwolaeth. Doedd dim amdani ond gwneud llwybr efo darnau o fambŵ a cheisio cadw o fewn y llwybr yn ystod oriau'r nos. Dyna lle byddai'n mynd am nosweithiau ar hyd y llwybr a throi'n ôl am awr neu ddwy. Anodd iawn oedd cysgu am fwy nag awr neu ddwy bob nos. Erbyn diwedd yr ail wythnos roedd ei gorff wedi cyfarwyddo â deffro bob dwy awr. Ar ôl bron i dair wythnos cyrhaeddodd y tîm achub ac, ymhen dim, roedd y stôf wedi'i thrwsio a rhoddwyd un arall iddo wrth gefn.

Adnod: "Ymhen chwe diwrnod dyma Iesu'n cymryd Pedr ac Iago ac Ioan a mynd â hwy i fynydd uchel o'r neilltu ar eu pennau eu hunain." Marc 9:2

Gweddi: O Dduw, rho i ni nerth i wynebu anawsterau, yn enwedig pan fyddwn ni ar ein pennau ein hunain. Amen.

Trafod:

- A fyddech chi'n dweud fod y dasg wedi bod yn fwy anodd i Byrd am ei fod ar ei ben ei hun?
- Ydych chi wedi gorfod wynebu problem ar eich pen eich hun?